

**Cyfarfod Bwrdd Cynllun y Barri ar gyfer Cymdogaethau
Dydd Gwener 21 Tachwedd 3pm-5pm Ystafell
Porthceri, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri**

Yn bresennol: David Stevens (DS); Fay Blakeley (FB); Cyng. Lis Burnett (LB); Shirley Hodges (SH); Matt Blumberg (MBg); Jane Hutt (JH); Ch.Supt Marc Attwell (MA)

Ymddiheuriadau: Sarah Cutting, Innes Robinson, Kanishka Narayan, Cyng. Bronwen Brooks, Joe Castle

Yn bresennol: James Scorey (JS); Rob Thomas (RT); Phil Chappell (PC); Mererid Velios (MV); Alex Francis (AF)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd James Scorey o CAVC. Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. Trafodaeth ac adborth ar y cynllun 10 mlynedd

Myfyriodd JH ar bwysigrwydd canolbwyntio ar Ddwyrain y Barri a chanol y dref ac i sicrhau effaith gymunedol ymyriadau. Angen cynnwys y gymuned ar lawr gwlad, dod o hyd i asiantau newid, a gweithio mwy gyda'r ysgolion yn y Dwyrain, yn ogystal â chymunedau ffydd fel y Mosg. Soniwyd hefyd am Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru, gyda grantiau hyd at £250K, bellach ar agor i geisiadau.

Roedd LB yn adlewyrchu bod yr heriau yn y Barri yn cynnwys y bwlch mewn disgwyliad oes iechyd, a'r diswyddiadau a raglennwyd yn Dow.

Cyfeiriodd DS at yr adran olaf yn y cynllun 10 mlynedd ac awgrymodd fod angen i ymreolaeth y Bwrdd fod yn gliriach.

Cafwyd trafodaeth hefyd am ddatganiadau o fuddiant a'i gwneud yn eglur yn y testun nad yw aelodau grwpiau gweithredu yn elwa'n bersonol o aelodaeth.

- GWEITHREDU: MV i adolygu'r adran derfynol i egluro ymreolaeth y Bwrdd PfN ac i gynnwys gwybodaeth am gylch gorchwyl y grwpiau gweithredu.

Cadarnhawyd bod angen i'r Cynllun gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Adran 151 cyn iddo gael ei gyflwyno. Ar ôl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU, cytunwyd i'w gyhoeddi a chreu fersiwn hawdd ei ddeall.

3. Trafodaeth ac adborth ar y cynllun 4 blynedd

Tynnodd LB sylw at y ffaith bod amrywiaeth o gronfeydd cyllid yn cael eu defnyddio ac y gellid eu cyfuno drwy weithio mewn partneriaeth. Awgrymwyd ein bod yn cyfleu i bobl y cydweithio a sut rydym yn dod ag adnoddau at ei gilydd. Nododd DS y byddai'n well cael eglurder ynghylch pryd roedd y Bwrdd yn arwain y prosiect, a phryd roedd y Cyngor yn arwain ar brosiectau eraill gyda phartneriaid.

Nododd MBg fod aelodau ei grŵp gweithredu yn rhwystredig gyda'r diffyg sicrwydd ynghylch eu dyraniad cyllideb. Trafodwyd na fyddai cyllidebau'n cael eu hymrwymo eto, i aros i grwpiau gweithredu gyflwyno eu syniadau, y gellid eu graddio.

4. Tirwedd ariannu gyfredol

Adroddodd PC ar y prif ffrydiau ariannu sydd ar gael ar hyn o bryd.

- GWEITHREDU: PC i gylchredeg y tabl

Awgrymodd PC y dylid gwahodd ABP i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

Adroddodd PC hefyd ar y prosiectau mawr y mae'r Cyngor yn eu datblygu ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth am ymgysylltiad Wilko a'r gymuned ynghylch cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae gan grwpiau gweithredu Bywiog y Barri a'r Barri Gyda'n Gilydd ddiddordeb rhoi mewnbwn ond mae angen iddynt ddeall beth yw'r paramedrau.

Nododd LB y bydd angen i Wilko's fod yn hunangynhaliol yn ariannol ond mai amcanion y Cyngor wrth ei brynu oedd dod â bywiogrwydd yn ôl i Holton Rd er budd masnachwyr a'r dref.

- GWEITHREDU: PC i ddarparu dogfen gryno yn amlinellu sut y gallai PfN gymryd rhan yn y prosiectau mawr sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Cafwyd trafodaeth am ddyfodol Holm View a diddordeb gan y grŵp Barri Gyda'n Gilydd. MBg hefyd â diddordeb mewn gwneud ymholiadau am adeilad Jewson. PC i gysylltu MBg ag ABP.

Adroddodd MA yn ôl ar gyfarfod Diogelu'r Barri a gofynnodd DS i FB ac MBG adrodd yn ôl ar eu cyfarfodydd grŵp gweithredu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

5. Unrhyw Fusnes Arall

Rhannodd MV wybodaeth am Achos Siôn Corn ac awgrymodd DS fod y Bwrdd yn cyfrannu £2000.

6. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Ail wythnos Chwefror a awgrymwyd - o bosibl dydd Gwener 13^{eg}.